

Pris: 50c

Papur Pawb

Hydref 2014 Rhif 402



Ysgol Llangynfelyn – diwrnod fel Celtiaid – tud 8

tud 3
Pobl a Phethe

tud 5
Dod i nabod....

tud 15
Y Gair Olaf

tud 16
Chwaraeon

Tân yn y coed uwchben Tre Taliesin

Ar ddydd Sul 7 Medi, cafodd trigolion Tre Taliesin dipyn o fraw - roedd mwg i'w weld yn dod o'r coed uwchben y pentre, i'r gogledd o Fryn Arian. Ar ôl cwpl o ddiwrnodau, daeth injan dân i geisio diffodd y tân ond parhaodd i fudlosgi drwy'r prysgwydd sych ac felly, ymhen diwrnod neu ddau, ffonwyd y gwasanaeth tân eto. Mae'n debyg i sawl injan dân ddod wedyn ond roedd mor lletchwith i'r dynion fynd â'r dŵr i fyny'r llethr serth i gyrraedd yr ardal dan sylw. Gwelwyd y criw o'r Borth yn cario dŵr ar eu cefnau! Yn y pen draw, doedd dim llawer mwy y gallen nhw ei wneud, felly rhaid oedd aros am y glaw nesa. Am ychydig ddyddiau ar ôl hynny, gallwn weld y mwg yn codi o'r coed a lledodd y mudlosgi drwy ardal eang. Er mor fendigedig oedd haul mis Medi, yn sydyn roedden ni'n ysu gweld y glaw yn dod! O'r diwedd, ar ôl pythefnos, aeth y tywydd yn oerach a daeth digon o law i ddiffodd y tân, diolch i'r drefn.

Mae'r hen goed derw mor brydferth, ond hefyd maent yn cynnig cynefin pwysig i bob math o greaduriaid a phryfed, gan gynnwys y tylluanod hyfryd sydd i'w clywed bob nos bron. O



edrych ar y safle fe ymddengys fod rhywun neu rywrai wedi cael tân yn y coed ac rydym yn cymryd iddyn nhw gredu eu bod wedi'i ddiffodd, yn hytrach na dechrau'r tân yn fwriadol. Gobeithio y bydd hyn yn wers iddyn nhw! Mae yna ddigon o ddifrod fel y mae ond gallai fod wedi bod yn drychinebus. Mae'r ddaear yn ddu o dan y coed ac mae rhisgl sawl bonyn wedi'i losgi yn y gwaelod. Bydd yn rhaid aros i weld a fydd y coed yn gallu goroesi hyn.



Sioe Ffasiynau o dan ofal Sefydliad y Merched, Taliesin – tud 6

Ysgol Tal-y-Bont Nôl mewn amser i Oes y Celtiaid – tud 5



Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com Cysyllter â golygyddion y mis	(01970) 832560
Tynnu lluniau:		
Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais	832592 832438 832483 832498 832566 832230 832429 (01654) 781260 (01654) 781324
Eglwysfach/Ffwrnais:	CYMDEITHAS PAPUR PAWB Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont Ysgrifennydd: Trysorydd: Tanysgyrfiadau: Hysbysebion: Plygu'r Papur: Dosbarthwyr:	832760 832203 832344 832093 832448 832076

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.



Cwrdd Diolchgarwch, Capel Bethesda Cwm Tŷ-nant

Yn y Gymru sydd ohoni, anaml y gellir dweud bod capel dan ei sang, ond ychydig iawn o seddi gwag oedd i'w gweld yng Nghwrdd Diolchgarwch Capel Bethesda, Cwm Tŷ-Nant ar ddydd Sul Medi 14eg, gyda'r gwasanaeth dan ofal Miss Beti Griffiths, Llanilar. Mae gan deulu Beti gysylltiad hir â'r ardal ac yn gynharach eleni enillodd Beti yn Eisteddfod Rhydlydwyd gydag ysgrif yn dwyn i gof rhai o'i hatgofion cynnar am y capel bach arbennig hwn. Darllenwyd ysgrif Beti yn ystod yr oedfa gan Miss Nest Jenkins a chafwyd unawd teimladwy iawn gan Efan Miles Williams.

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Drefaldwyn:

Bydd Gwarchodfa Cors Dyfi ar agor ar benwythnosau rhwng 10.00 a 16.00 dros yr hydref a'r gaeaf. Digwyddiadau mis Hydref:

Hydref 25 – 1.00 – Celf a Chrefft, yng Ngwarchodfa Cors Dyfi
Hydref 28 – 11.00 – Amser stori Natur, Llyfrgell Machynlleth
Hydref 29 – 1.00 – Sgwrs Gweilch y Môr, Gwarchodfa Cors Dyfi
Hydref 31 – 1.00 – Sgwrs "Brooms, Beasies and Bat Boxes", yng Ngwarchodfa Cors Dyfi. Ceir rhagor o fanylion ar 01654781414

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur

Noddwyd y wefan hon gan:
Anthony Motors
Volkswagen



papurpawb.com

Dyddiadur

Hydref

- Bethel 10.00** Gwasanaeth teulu (yng nghwmni Dafydd Iwan)
Cwrdd Diolchgarwch C.Ff.I. Tal-y-bont a'r Cylch
Capel Bethel, 5.00yh
Nasareth Oedfa'r Ofalaeth
Rehoboth Oedfa'r Ofalaeth
Eglwys Dewi Sant 11.00 Cymun Bendigaid
- Cyfarfod Chworiydd Rehoboth**
'Castell Aberteifi' (Rhian Medi)
- Sefydliad y Merched**
Cwrdd Blynnyddol
Bwffe Cynhaeaf
- Bethel 10.00** Oedfa Undebol (Diolchgarwch y Plant)
Nasareth
Rehoboth 10.00 Parch Richard Lewis
Eglwys Dewi Sant 11.00 Gwasanaeth
- Neuadd Goffa 7.30**
Merched y Wawr
Noson yng nghwmni Rhianon
Roberts(Aberaeron)
- Bethel Uno yn Nasareth**
Nasareth 10.00 Rhidian Griffiths
Rehoboth 5.00 Parch Ifan Mason Davies
Eglwys Dewi Sant 11.00 Gwasanaeth Teulu
- Neuadd Rhydypennau (7.30 pm).** 'Beth nesaf? Effaith refferendwm yr Alban ar Gymru.' Noson hwyliog o drafod yng nghwmni Mike Parker, Elin Jones, ac eraill, dan ofal cangen Rhydypennau o

Blaid Cymru. Croeso

cynnes iawn i bawb.

Mynediad am ddim. Offer cyfieithu ar gael.

Tachwedd

- Bethel 10.00** Gweinidog
Nasareth 10.00 Bugail (C)
Rehoboth 5.00 Bugail
Eglwys Dewi Sant 11.00 Cymun Bendigaid
- Llanfach, Taliesin 7 .00**
'Hanes y Pantomeim a'r Warden yn Aberystwyth' Noson ymg nghwmni Ioan Guile
- Bethel 5.00** Gweinidog (C)
Nasareth
Rehoboth 2.00 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant 10.45 Gwasanaeth Sul y Cofio, Neuadd Goffa Tal-ybont
- Cyfarfod Chworiydd Rehoboth**
'Niclas y Glais' (Hywel Wyn Jones)
- Bethel 10.00**
Nasareth
Rehoboth. 2.00 Parch W.J Edwards
Eglwys Dewi Sant 11.00 Gwasanaeth

Digwyddiadau yn yr Ystafell Haearn a'r Eglwys, Eglwysfach

Hydref

- 2.00 – Clwb Llyfrau: "The Book Thief"
- 9.30 – Gwasaneth Bore, Eglwys Sant Mihangel
- 7.00 – Tennis Bwrdd
- 7.30 – Dawnsio Albanaidd
- 9.30 – Gwasanaeth Cymun, Eglwys Sant Mihangel
- 9.30 – Gwasaneth Bore, Eglwys Sant Mihangel, gyda Canon Stuart Bell.
- 7.00 – Tennis Bwrdd

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832442) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.



DIGWYDDIADAU MORLAN:

- **C21 (7.30, nosweithiau Mercher o 1 Hydref i 5 Tachwedd):** cyfarfodydd y grŵp Cristnogaeth 21 dan arweiniad Parch. Enid Morgan.
- **Bwrw Bol (7.00, nos Fercher, 12 Tachwedd):** noson i fwrw bol ar sut y dylid nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.
- **Gŵyl Lyfrau Morlan (14-15 Tachwedd):** Coblyn a Pili Pala o Bentre Bach, Eurig Salisbury, Manon Steffan Ros, Gwyn Jenkins, Lleucu Roberts a T. James Jones.

Manylion llawn ar wefan Morlan:

www.morlan.org.uk

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Helen, Rhian a Ceri gyda Ceri yn dylunio. Golygyddion mis Tachwedd fydd Geraint ac Eirian (post@garnwen.org.uk) gyda Iolo'n dylunio. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 1 Tachwedd, a bydd y papur ar werth ar 8 Tachwedd.

Bedydd

Ar ddydd Sul, Medi'r 14eg yng Nghapel Rehoboth, Taliesin, bedyddiwyd Marek Alaw ac Owain Heddd, plant Gwenan ac Aled Jones, Eglwys Newydd Caerdydd gan y gweinidog Y Parch Wyn Morris. Mae Marek ac Owain yn wyrion i Dilwyn a Carys, Llys Eleri, Tal-y-bont. Pob dymuniad da i'r teulu.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu Llety Ifan Hen, Bontgoch ar golli brawd i Lisa yn ddiweddar sef Dai Williams, Pontrhydfendigaid.

Swydd Newydd

Pob dymuniad da i Eurgain Phylip, Gwynionydd, Tal-y-bont ar ei swydd newydd yn Adran Adnoddau Dynol, Prifysgol Aberystwyth.

Ymddeoliad Hapus

Ymddeoliad hapus iawn i Raymond Smith, Dyfi Villa, Tre Taliesin. Dymunwn y gorau i ti Raymond ar gyfer ymddeoliad dedwydd iach.

Cydymdeimlad

Rydym yn cydymdeimlo'n fawr ag Anwen Haynes, Y Bwthyn, Tre Taliesin, ar golli ei brawd Raymond Williams yn 70 oed ar ddechrau'r haf, a hefyd â'i wraig Bet, Abermagwr, ei ferch Donna James, Maes Cletwr, Tre'r-ddôl a'i fab Mark sy'n byw ger Tregaron.

Swydd Newydd

Llongyfarchiadau mawr i Llio James, Llanerch, Tal-y-bont am ennill gradd MA ym Mryste ac am ei swydd newydd ym Melin Wlan, Perth, yr Alban fel ddarpar gynllunydd.

Mae Rhian Jones, Eurfan, wedi dychwelyd i Gymru ac yn dechrau ei swydd newydd gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn eu swyddfeydd yng Nghaerfyrddin.

Penblwyddi Arbennig

Llongyfarchiadau i Ruth Jên a Jen Lewis, Hen Siop Sgidiu sy'n dathlu penblwyddi arbennig iawn - un yn 50 oed a'r llall yn ddeunaw. Dyfalwch chi p'un yw p'un! Llongyfarchiadau hefyd i Arwel Griffiths, Maes y Deri sy'n dathlu 50 oed.

Pasio Prawf Gyrru

Llongyfarchiadau i Sion Hopkins. Dyffryn, ar basio ei brawf yrru yn ddiweddar.

Pobl a Phethe



Cogyddes newydd Siop Cynfelyn

Mae'r caffï yn Siop Cynfelyn wedi cyflogi cogyddes newydd. Ei henw yw Jane Leivers a daw yn wreiddiol o Sheffield ond mae hi nawr yn byw yn Llanbryn-mair. Bu'n gweithio am dros 25 mlynedd fel tafarnwraig mewn amryw o dafarnau ym Mangor a Llandudno. Mae'n gobeithio ehangu'r dewis o frechdanau yn y Caffï a chyflwyno mwy o fwydydd poeth yn enwedig bwydydd a chig lleol. Cafwyd parti yn Siop Cynfelyn ar Fedi'r 19eg i ddiolch i holl wirfoddolwyr y caffï a'r siop am eu gwaith caled drwy'r haf ac i groesawi Jane i'r gymuned.

Babis Newydd

Llongyfarchiadau i Dylan a Lynwen Morgan, 1 Pentrebach ar enedigaeth bachgen bach, brawd bach i Alaw. Hefyd i Hollie a Nathan Davies, 1 Tancoed, ar enedigaeth bachgen bach, Beau Austin Davies. Llongyfarchiadau gwresog i Rebecca ac Arthur, Mur Mawr, sydd wedi mabwysiadu plentyn. Croeso mawr i Deio.

Ailgylchu

Mae'r y Cyngor Cymuned yn annog trigolion i ailgylchu papur a gwydr yn y biniau ailgylchu sydd yn y maes parcio gyferbyn â'r ffwrnais.

Mae'r arian a godir o hyn yn mynd tuag at gynnal yr Ystafell Haearn.

Pen-blwydd Priodas

Llongyfarchiadau i Gwilym ac Ann Jenkins, Llety'r Bugail ar ddathlu pen-blwydd priodas emrallt yn ddiweddar. Hefyd i Betty ac Evan Jenkins, Pengwern ar ddathlu prioda aur ac i Shân a David Evans, Fferm Tanllan ar eu priodas arian.

Gwesty'r Llew Du
Black Lion Hotel

ARCHBWCHEIC PARTI DOUG GYDA NI!
BYWD DA... CWMNI DA...

Talybont, Aberystwyth
01970 832 555
gwestylllewdu.com

SWYDDI BLAEN TY'R GAEL
CYSYLLTWCH Â NI!



Ysgoloriaeth

Keira Forster Brown – Hammond School, Caer. Mae Keira Forster Brown o Eglwys-fach, cyn-ddisgybl o Ysgol Tal-y-bont ac Ysgol Penglais sydd ym Mlwyddyn 8 wedi bod yn llwyddiannus mewn ennill ysgoloriaeth lawn i'r Hammond School yng Nghaer. Dechreuodd Keira ei hysgol newydd ym mis Medi a bydd yn derbyn hyfforddiant dawnio bale, 'modern', tap a 'jazz', drama a chanu yn ychwanegol i wersi academiaidd arferol. Llongyfarchiadau mawr iawn i ti Keira.

Gwesty Ynyshir, Eglwysfach

Llongyfarchiadau mawr iawn i Westy Ynyshir ar ennill gwobr Gwesty y Flwyddyn AA 2015 ac i Gareth y cogydd a'i dim am ennill seren Michelin. Hefyd fe hoffai Joan Reen perchennog y gwesty ddiolch i bawb â gefnogodd yr Wyl Gerddoriaeth ddiweddar a gododd bron i £2000 tug at elusennau cancr.

Marwolaethau

Cydymdeimlwn â Jon a Vicki Evans, a'r plant, Penaber, ar golli mam a mamgu annwyl sef mam Jon o Stockport.

Pen-blwydd Priodas

Llongyfarchiadau mawr i Eric a Liz Roberts, Maes y Deri sy'n dathlu eu pen-blwydd priodas Rhuddem. Brafi iawn yw gweld fod Eric adref o'r ystybyr erbyn hyn.

Salon Leri

Pob agwedd o drin gwallt gan Richard

10am-7pm
Llun-Gwener

(01970) 832 674



Y Gwyll

Mae ail gyfres 'Y Gwyll' wedi dechrau ffilmio yn yr ardal ac mae amryw o bobl lleol wedi cael cyfle i fod yn 'ecstras'. Dwy ohonynt ydy Rachel Davies o Daliesin a Lesley Lewis o Ffwrnais. Bu'r ddwy yn ffilmio ym Mhlas Gogerddan yn ddiweddar yn chwarae rhan nyrsys. Byddant yn ymddangos yn y bennod gyntaf arbennig sy'n cael ei ddarlledu ar Ddiwrnod Calan ar y cyntaf o Ionawr. Edrychwch allan amdanynt!



Clwb Gwawr y Pennau

Daeth criw da at ei gilydd i'r cyfarfod cyntaf ym mis Medi ar gyfer noson 'swishing' sef cyfnewid dillad nad ydych chi'n gwisgo rhagor. Roedd yn gyfle gwyh i waredi ar ddillad sydd wedi bod yng nghefn y cwpwrdd dillad ers hydoedd a chael cyfle i gael rhywbeth newydd yn eu lle. Cafwyd hwyl yn edrych ar y dillad ac aeth bawb adref yn hapus gyda'i dillad 'newydd'. Os oes gan unrhyw un diddordeb mewn ymuno â'r Clwb Gwawr, cysylltwch gyda Rhian Nelves (01970) 832364 / rhian.nelves@btinternet.com



Dysgwyr Lleol

Tom, Anne-Marie a Sylvie. Tri o ddysgwyr lleol ddaeth i sgwrsio ac ymarfer 'u Cymraeg yng nghaffi Siop Cynfelyn. Cawsom lot o hwyl a byddwn yn cwrrd yn rheolaidd ar y trydydd Sadwrn y mis. Bydd croeso i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg.

Ysgol Tal-y-Bont



Trawsgwlad



Cyngordd yn Eglwys Bont-goch Elerch



Etholiadau



Ysgol Tal-y-Bont

Nôl Mewn Amser i Oes y Celtiaid

Ar ddydd Llun Medi 15fed, aethon ni i Gastell Henllys. Roedd y trip yn rhan o thema'r tymor yma.

Unwaith i ni gyrraedd aeth Arianrhod, sef yr arweinydd, â ni lan i'r pentref Celtaidd. Roedd yn rhaid i ni gerdded dros bont ac esboniodd Arianrhod i ni sut oedd y Celtiaid yn byw 2,300 mlynedd yn ôl. Wrth gerdded, neidiodd tri Celt allan o'r gatiâu gyda gwayffryn. Cafodd pawb fraw a dechrau sgrechian.

Dangosodd Arianrhod y tai crwn i ni. Roedd y toeon wedi eu gwneud o wellt. Aethon ni i'r tŷ cyfarfod ac fe gafon ni ein rhannu i bedwar grŵp. Yn gyntaf es i i greu bara gyda dŵr a blawd. Roedd yn rhaid i ni wneud ein blawd wrth wasgu'r ŷd.

Ar ôl gorffen y bara, peintiodd Arianrhod batrwm duwies ar wynebau pawb.

Pan oeddwn i'n bwyta fy magguette a fy melon ac yfed fy J20 daeth Bran y Celt o gwmpas yn gofyn am chwarter clust mochyn!

Nes ymlaen aethon ni gyda Bran i adeiladu tŷ crwn. Roedd yn rhaid i ni wehyddu'r helyg trwy'r derw i greu'r patrwm ar y walïau. Yna roedd yn rhaid i ni roi mwd ar ochrau'r walïau.

Wedyn aethon ni at Olwen i greu basged lle'r oedd angen i ni wehyddu helyg eto. Roedd Miss Morgan yn tynnu lluniau ar yr iPad ond doedd Olwen ddim wedi gweld un o'r blaen ac roedd hi'n gofyn beth oedd e'n gwneud.

Roedd pawb wedi mwynhau yng Nghastell Henllys ac fe wnes i fwynhau creu basged a chymysgu toes i wneud bara. Diolch yn fawr i'r staff am drefnu'r trip ac i'r Gymdeithas Rieni am dalu'r bws. Heledd Blwyddyn 6

Trawsgwlad

Ar ddechrau mis Hydref aeth 20 o blant yr ysgol i gystadlu yng nghystadleuaeth trawsgwlad y cylch ar Gaeau'r Ficerdy. Llongyfarchiadau mawr i bawb a wnaeth gystadlu ac yn arbennig i Tomos (2il), Cai (2il) ac Eli (6fed) am ddod yn y 10 cyntaf, ac felly'n cael cyfle i gynrychioli ardal Aberystwyth yng nghystadleuaeth rhanbarth yr Urdd yn y flwyddyn newydd. Ardderchog!

Cyngerdd yn Eglwys Bont-goch Elerch

Ar ddiwedd Tymor yr Haf aeth criw o Ysgol Tal-y-bont i berfformio nifer o eitemau amrywiol mewn cyngerdd yn Eglwys Bont-goch. Cafodd y plant dderbyniad da gan iawn gan y dorf ac ychydig wythnosau'n ddiweddarach cawsom wybod fod y trefnwyr am roi rhodd i'r ysgol. Yn y llun gwelir y Ficer Andrew Loat yn cyflwyno sic o £50 i'r plant ac i Gymdeithas Rieni'r ysgol ac rydym yn ddiolchgar iawn am y rhodd yma.

Etholiadau

Mae'r tymor hwn wedi bod yn un hynod o brysur yn barod. Yn ystod y mis rydym wedi bod yn cynnal gwahanol etholiadau i ddewis cynrychiolwyr ar gyfer gwahanol swyddi o fewn yr ysgol. Hoffwn longyfarch y canlynol am gael eu hethol gan eu cyd-ddisgyblion –

- 1 Llysgenhaddon yr Ysgol yw Heledd Davies a Libby Foulkes a nhw fydd yn gyfrifol am ddatblygu agweddau o iechyd a diogelwch yn yr ysgol.
- 2 Llysgenhaddon Efydd yw Nia Benham ac Alex Spollen a nhw fydd yn gyfrifol am ddatblygu chwaraeon yn yr ysgol.
- 3 Llysgenhaddon yr Urdd yw Glain Davies a Seren Putt a nhw fydd yn cynorthwyo i drefnu gweithgareddau'r Urdd.
- 4 Aelodau'r Cyngor Ysgol yw Billy ac Emily (Blwyddyn 6), Cai ac Eli (Blwyddyn 5), Catrin a Therésè (Blwyddyn 4), Efa a Miriam (Blwyddyn 3) a Carys a Caoimhe (Blwyddyn 2).

Pob hwyl i chi i gyda gyda'ch gwaith.



Dod i nabod....

Dr Wayne Aubrey

A wyddech chi taw ym Mhrifysgol Aberystwyth y cafodd y robot cyntaf yn y byd i ddarganfod gwybodaeth wyddonol newydd ei adeiladu, a bod aelod o'r tîm fu'n ei adeiladu bellach wedi ymgartrefu yn Nhal-y-bont?

Un o'r Tymbl yw Wayne Aubrey a daeth i'r Brifysgol yn Aberystwyth i astudio Biocemeg.

Bu ei dad yn gweithio fel peiriannydd tanio a ffrwydro ym mhyllau glo'r de, yn eu mysg Cynheidre ac Unity yng Nghastell Nedd, a'i fam yn warden yn gofalu am yr henoed.

Felly, pan ddaeth i'r Brifysgol roedd yn troedio llwybr cyfarwydd iawn i genedlaethau o bobl ifanc o'r de diwydiannol.

Wedi graddio aeth i Gaerwysg lle y cwblhaodd radd meistr mewn Biowybodaeth cyn dychwelyd i Aberystwyth i weithio gyda'r Athro Ross King, a chwblhau ei ddoethuriaeth.

Yr Athro King oedd yn arwain y grŵp fu'n adeiladu'r robotiaid - Adda ac Efa – a wnaeth y darganfyddiad hanesyddol yn Aberystwyth yn 2009.

Cymaint oedd arwyddocâd y gwaith fel bod y cylchgrawn *Time* wedi'i restru ymysg 5 darganfyddiad gwyddonol pwysicaf y byd y flwyddyn honno.

Yn 2010 symudodd Wayne i weithio i'r Athro Hans Westerhoff ym Mhrifysgol Manceinion. Yno bu'n gweithio ym maes Bioleg Systemau gan astudio sut y mae celloedd unigol yn gweithio er mwyn adeiladu modelau cyfrifiadurol ohonynt.

Nôd y gwaith oedd troi celloedd unigol yn ffatrïoedd meicroscopig er mwyn cynhyrchu cemegau gwerthfawr.

Mae'r modelau cyfrifiadurol y bu Wayne ac eraill yn eu datblygu yn galluogi gwyddonwyr i geisio rhagweld beth sy'n digwydd o fewn y celloedd o dan amgylchiadau gwahanol, a thrwy hynny eu rheoli.

Wedi tair blynedd ym Manceinion, dychwelodd Wayne i Aberystwyth ym Medi 2013 i gymryd swydd darlithydd Peirianeg Meddalwedd, swydd sydd wedi ei chyllido gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Ochr yn ochr â'i waith ymchwil arloesol, mae'n datblygu deunydd ar gyfer dysgu'r pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ond mae mwy iddo na'i waith academiaidd. Mae Wayne ar fin ail-gydio yn ei yrfa bwl droed fel un o chwaraewyr canol cae Tal-y-bont. Mae hefyd yn hoff iawn o fyrrddio eira, syrffio a seiclo, pan fydd amser yn caniatáu.

Mae llawer o'i waith ymchwil wedi canolbwyntio ar y burum sy'n cael ei ddefnyddio i bobi bara, *Saccharomyces cerevisiae*. Ond mae ei ddiddordeb mewn burum yn ymestyn tu hwnt i fyd gwyddoniaeth.

Mi fyddai wrth ei fodd yn sefydlu bragdy cwrw meicro, ond mi fydd rhaid i hynny aros nes iddo efa a Holly Morgan, merch Barry a Denise Morgan (James Street), ymsefydlu yn eu cartref newydd yma yn Nhal-y-bont.

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad

gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612

07835 525 553

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Thellio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129

07761 917235

Sioe Ffasiynau o dan ofal Sefydliad y Merched, Taliesin

Braf oedd cael bod yn Neuadd Tal-y-bont nos Sadwrn 27 Medi i gael gweld y neuadd yn llawn o ferched oedd yn awyddus i gael noson hwyliog yn y Sioe Ffasiynau a oedd wedi eu threfnu gan Sefydliad y Merched Taliesin. Ymgyrch newydd a thra gwahanol i godi arian i achosion da lleol, sef Grŵp Chwarae Taliesin ac Ysgol Feithrin, Tal-y-bont. Cwmni 'Shop2Drop' o Fanceinion oedd yn lliwio'r noson. Gwerthwyd pob tocyn o flaen llaw a gyda phawb wrth y byrddau yn cymdeithasu yn braf dyma ddechrau ar arddangos a gwerthu'r dillad oedd o siopau enwog masnachol fel Next, M&S, Monsoon, Zara, Oasis, Debenhams a Wallis.

Buan gwelwyd dwylo yn chwifio o bob cyfeiriad i ddal sylw yr arwerthwr egniol a phawb yn rhyfeddu ar y bargeinion a'r ystod eang o ddillad hyfryd oedd ar gael.... Rhywbeth i blesio pawb oedd yno.

Rhoddyd £100.00 yn anrheg oddiwrth y cwmni tuag at y raffl ac roedd yn amlwg i hon fod yn noson hynod llwyddianus i'r ardal eang.

Carwn ddiolch am gefnogaeth aruthrol aelodau Sefydliad y Merched Taliesin am y paratodau manwl yn ystod y misoedd a'u parodrwyd i helpu a chyd weithio yn y neuadd ar y noson i greu awyrgylch deniadol a chroesawgar gyda'r gosodiadau blodau, y bwydydd ysgafn a'r diodydd yn wledd i'r llygaid. Diolch am y croeso a gafwyd yn Nhal-y-bont a gobeithiwn wneud rhywbeth yn debyg y flwyddyn nesaf pan y fydd y mudiad yn datlu eu canmlwyddiant.

Beti Wyn Davies

Y LLEW GWYN TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £7.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £7.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwr: £7.95 Dau gwr £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
whitelionhotel1@btconnect.com

loga

Neuadd Goffa, Tal-y-bont,
Nos Fawrth am 7.30- 9.00.

Pris £5.00

Cysylltwch a

Sue Jones-Davies

01970 624658

Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com



Cymdeithas y Chwiorydd

Ar gychwyn tymor newydd, estynnodd y Llywydd, Eiriona Metcalfe, groeso i'r aelodau i'r cyfarfod yn festri Capel Rehoboth, Taliesin, ar brynhawn Mawrth, 9 Medi, a chyflwynodd ein gwraig wadd, sef Jasmine Wilson o Bontrhydfendigaid.

Sôn am ei phrofiadau pan fu'n cymryd rhan yn y rhaglen 'Y Plas' a ddangoswyd ar S4C a wnaeth Jasmine yn ystod y prynhawn. Am dair wythnos ym mis Medi 2013, fe wnaeth deunaw o bobl gamu yn ôl i 1910 a byw fel meistri a gweision ym mhlasty Llanerchaeron, Ceredigion. Cymryd rhan y gogyddes a wnaeth hi, ac er fod y gwaith yn galed ac yn anodd ar adegau, dywedodd fod y profiad o gymryd rhan yn y rhaglen wedi bod yn wych. Talwyd y diolchiadau gan Ann Jenkins, gyda Mai Leeding a Myfanwy Rowlands yng ngofal y te ar y diwedd.

Merched y Wawr Tal-y-Bont a'r Cylch

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor ar nos Lun, 22 Medi, ac estynnwyd croeso i Mr Wil Griffiths, Comins Coch, i sôn am ei gyfrol a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Fe'i magwyd yng nghymuned fach wledig Cornelofan yn ardal Llangwryfon, ac yn naturiol, felly, *Mewn Un Cornel* yw enw ei gyfrol ddiweddaraf sy'n portreadu bywyd yn yr ardal honno. Cawsom glywed hanesion am fywyd pob dydd trigolion yr ardal yn ystod cyfnod arbennig: sawl un ohonynt yn ddoniol ac yn dod â gwên i'r wyneb, ac eraill yn dod ag atgofion plentyndod yn ôl i ambell un. Diolchwyd iddo gan Carys Briddon. Trefnwyd y noson gan Mai Leeding, Carys ac Ann Humphreys.

Gwasanaeth Scanio ARTHUR MORGAN



Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 - 07721 786292

Mae Papur Pawb yn awyddus i gynnwys newyddion am hynt a helynt unigolion neu dimau o'r ardal sy'n cystadlu yn y byd chwaraeon. Anfonwch yr hanesion at Gwyn Jenkins drwy ebost (maesgwyn@fsmail.net) neu ffoniwch ef ar 832560.

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes



Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 Awr - Wedi ei wresogi



Bocsos a 'bubblewrap' ar lein
www.bboxsupplies.co.uk

Ffôn: 01654 703592

www.midwalesstorage.co.uk

Hed Y Ddŵ, Machynlleth, SY20 8BQ

INVESTORS | BUDDSODDWR
IN PEOPLE | MEWN POBL

argraffu da am bris da



ylolfa

holwch Paul am bris ar paul@ylolfa.com
01970 832 304 www.ylolf.com

Canlyniadau Sioe Llangynfelyn

LLYSIAU

3 Tatws

1 Mrs H Hicks, Tŷ Coch, Llangynfelyn
2 C & A Moss, Ynys Tachwedd, Ynyslas
3 Mr R Spencer, Manchester House, Taliesin

4 Sialots

2 Mr P Regan, Free Trade Hall, Taliesin
2 Mr W Griffiths, Wenlyng, Tre'r Ddôl

3 Nionod

1 Mr R Smith, Dyfi Villa, Taliesin
2 Mr G Lewis, York House, Tre'r Ddôl
3 Mr B Davies, Rhos, Taliesin

3 Moron

1 Mr R H Davies, Al Liorzh, Tre'r Ddôl
2 Mr M Willis, Ystordy, Taliesin
3 Mitchell, Gwynfryn Lodge, Llangynfelyn

3 Betys

1 Mr R Smith, Dyfi Villa, Taliesin
2 Mr R H Davies, Al Liorzh, Tre'r Ddôl
3 Mr W Metcalf, Nirvana, Taliesin

3 Cennin

1 Mr P Fleming, Pen Y Graig, Tre'r Ddôl
2 Mr W Griffiths, Wenlyng, Tre'r Ddôl
3 C & A Moss, Ynys Tachwedd, Ynyslas

4 Ffa Dringo

1 Mr R H Davies, Al Liorzh, Tre'r Ddôl
2 Mr P Regan, Free Trade Hall, Taliesin
3 Mr G Lewis, York House, Tre'r Ddôl

4 Ffa Ffrengig

1 Mr R H Davies, Al Liorzh, Tre'r Ddôl
2 Mitchell, Gwynfryn Lodge, Llangynfelyn
3 Mr P Regan, Free Trade Hall, Taliesin

2 Cwycymbr

1 C & A Moss, Ynys Tachwedd, Ynyslas
2 Mr P Regan, Free Trade Hall, Taliesin
3 Mr R Smith, Dyfi Villa, Taliesin

4 Tomatos - mawr

1 Mrs M Leeding, Glannant, Taliesin
2 Mr W Griffiths, Wenlyng, Tre'r Ddôl
3 Mr R Smith, Dyfi Villa, Taliesin

3 Tshilis

1 Mr R H Davies, Al Liorzh, Tre'r Ddôl
2 Mr R H Davies, Al Liorzh, Tre'r Ddôl
3 Mr P Regan, Free Trade Hall, Taliesin

3 Corbwmpenni

1 Mitchell, Gwynfryn Lodge, Llangynfelyn
2 Mr P Regan, Free Trade Hall, Taliesin
3 Mr R Spencer, Manchester House, Taliesin

2 Maros

1 Mr R Spencer, Manchester House, Taliesin
2 Mr G Lewis, York House, Tre'r Ddôl
3 Mr R H Davies, Al Liorzh, Tre'r Ddôl

3 Panasen

1 Mr G Lewis, York House, Tre'r Ddôl
2 Mr R H Davies, Al Liorzh, Tre'r Ddôl
3 Mr R H Davies, Al Liorzh, Tre'r Ddôl

Hambwrdd o lysiau cymysg

1 Mr R H Davies, Al Liorzh, Tre'r Ddôl
2 Mitchell, Gwynfryn Lodge, Llangynfelyn
3 Mrs H Hicks, Tŷ Coch, Llangynfelyn

Bwnsiaid o berlysiau cymysg

1 Mrs J Regan, Free Trade Hall, Taliesin
2 Mrs H Hicks, Tŷ Coch, Llangynfelyn
3 Jasmin Foster Leslie, Llyscynfelyn, Taliesin

Llysieuyn disiâp

1 Mr P Fleming, Pen Y Graig, Tre'r Ddôl
2 Mr R Spencer, Manchester House, Taliesin
3 Mr M Willis, Ystordy, Taliesin

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran-Mr R H Davies, Al Liorzh, Tre'r Ddôl
Arddangosfa orau yn yr adran-Mr G Lewis, York House, Tre'r Ddôl

ADRAN Y PLANT

4 Bisgeden (Ysgol Uwchradd)

1 Miss F Hicks, Tŷ Coch, Llangynfelyn
2 Miss F Hicks, Tŷ Coch, Llangynfelyn

6 Melysion Peppermint (Ysgol Gynradd)

1 Libby Foulkes, Voelas Villa, Taliesin
2 Georgina Jones, 58 Garth Dinas, Penparcau
3 Becca Fflur, 12 Dôl Pistyll, Tal-y-bont
3 Heledd Medi Davies, Gwynfryn, Tal-y-bont

Eitem wedi ei greu o gregyn (Ysgol Gynradd)

1 Jasmin Foster Leslie, Llyscynfelyn, Taliesin
2 Becca Fflur, 12 Dôl Pistyll, Tal-y-bont
3 Iwan Foster Leslie, Llyscynfelyn, Taliesin

Eitem haggael (Ysgol Gynradd)

1 Skye Falvey, Tŷ Manceinion, Taliesin
2 Jacob Gwyn, Rhos, Taliesin
3 Noah Berry, Tyn y Garth, Furnace

Gwyneb anifail ar blat bapur (oedran 5-7)

1 Felix Hustings
2 Ava Lewis
3 Gethin Ellis Edwards, Gwynfryn, Tal-y-bont

Gwyneb anifail ar blat bapur (oedran 7-11)

1 Georgina Jones, 58 Garth Dinas, Penparcau
2 Grace Davies
3 Elijah Girardi
3 Jasmine Berry, Tyn y Garth, Furnace

Creadur llysiau (oedran ysgol gynradd)

1 Poppy Kerridge, Y Brwthyn, Cymerau, Glandyfi
2 Noah Berry, Tyn y Garth, Furnace
3 Hannah Willis, Ystordy, Taliesin

Bydd mwy o ganlyniadau yn ymddangos yn y rhifyn nesaf.

Elin Jones AC – O'r Cynulliad

Bu'n fis o ddigwyddiadau mawr yn yng Ngheredigion a thu hwnt. Mae adolygiad Marcus Longley o'r gwasanaeth iechyd yn y canolbarth yn tynnu at ei therfyn. Edrychaf ymlaen at weld ei gasgliadau, ac at barhau i wneud yr achos dros driniaeth arbennig i ardaloedd gwledig. Cafwyd cyfarfod cyhoeddus bywiog yn Aberystwyth ar ddyfodol Bronglais, ac mae trafodaethau'n parhau am Ysbyty Aberteifi, meddygfa Aberaeron, Cylch Caron a gwasanaethau cymunedol ym mhob rhan o'r sir.



Cawsom hefyd refferendwm yr Alban. Er mai pleidlais 'Na' fuodd, mae'r broses wedi esgor ar drafodaethau dwys ar sut yr ydym yn cael ein llywodraethu. Mae gymaint o bobl eisiau newid fel na all cyfundrefn San Steffan barhau'n ddigynfnewid. Mae'n rhaid i Gymru gael llais cyflawn yn y trafodaethau hyn.

Un peth oedd yn amlwg wrth i fi ymweld â'r Alban oedd y cyswllt anferth rhwng pobl ifanc a'r broses wleidyddol. Am y tro gyntaf, derbyniodd pobl o 16 ac 17 yr hawl i bleidleisio, ac roedd yn amlwg bod yna nifer yn cymryd rhan yn yr ymgyrchoedd.

Weithiau nid ydym yn llawn-werthfawrogi ein pobl ifanc. Mae hi wastad yn dda gweld plant o Geredigion yn dysgu am ddemocratiaeth a digwyddiadau'r byd, boed hynny'n mynd am daith i'r Cynulliad gyda'r Urdd, neu ymweld yn ystod y gynhadledd NATO fel y gwnaeth rhai o Aberystwyth yn ddiweddar. Wrth ymweld ag Ysgol Bro Pedr yn gynharach yn yr haf, yr hyn greodd argraff arna i oedd pa mor wybodus oedd y bobl ifanc yno.

Mae peryglon diweddar i gyllid i fyfyrwyr bregus, fel y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yng Nghymru a'r Lwfans Myfyrwyr Anabl, yn bygwth atal rhai rhag cael mynediad at addysg uwch, a siomedig iawn oedd toriadau llym Llywodraeth Cymru i'r gyllideb prentisiaethau.

Mae potensial anferthol gan ein pobl ifanc yng Ngheredigion, a rhaid gwneud popeth a allwn er mwyn galluogi iddynt i ffynnu.

**Bistro
Gannets**

Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf. Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

Garej Davmor



- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cyddyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278

www.davmorgarage.co.uk

Teyrnged

Rhan o'r Deyrnged a Draddodwyd yn Angladd
Idris a Margaret Jones, Llysynyr, Tal-y-Bont 12 Medi 2014

Ym Mhen-y-banc mae un bedd
Yn hafan o dangnefedd.

Diau y cytunwch â mi fod yr oedfa angladdol hon 'yn fwy trist na thristwch'. Yr ydym wedi ymgynnull i dalu teyrnged i ŵr a gwraig a fu farw o fewn ychydig ddiwrnodau i'w gilydd, sef Margaret ac Idris Jones, Llysynyr. Bu farw Margaret ddydd Gwener diwethaf yng nghartref Plas Cwmcynfelin, Clarach yn 88 oed. Byddai wedi cyrraedd 89 yr wythnos nesaf. Bu farw Idris gartref ddydd Llun yn 86 oed. Roedd y ddau wedi dioddef cystudd enbyd a hir. Yn wir, gellir dweud ei bod wedi bod yn fendith nad oes yn rhaid i'r un o'r ddau ddioddef rhagor.

Cydymdeimlwn yn fawr ag Ifor, y mab, a dreuliodd ei fywyd gyda'i rieni. Hoffwn egluro pam mai fi sydd yn gweinidogaethu yma heddiw. Y mae'r rheswm yn syml: rydw i'n un o'r teulu, roedd Idris yn gefnder cyntaf i mi.

Margaret neu Pegi, fel y'i gelwid gan Idris, oedd yr hynaf o'r ddau. Cofiaf imi ei chwrrdd gyntaf pan oedd y ddau yn caru yn ôl yn nechrau'r pumdegau. Margaret Gwendolen Roberts ydoedd, merch John a Sara May Roberts, Pen-y-banc, Tal-y-bont. Fe'i ganwyd yn 1925. Bu farw ei thad John yn gymharol ifanc, yn 48 oed, pan nad oedd Margaret ond yn bump oed. Symudodd y teulu wedyn i Is-y-banc, Tal-y-bont. Yn Ysgol Gynradd Tal-y-bont y cafodd ei haddysg gynradd ac wedyn yn Ysgol Ramadeg Ardwyn. Rownd laeth oedd ganddyn nhw a threuliodd Margaret weddill ei hieuentid yn mynd â llaeth o dŷ i dŷ. Dyna'i gwaith hyd nes iddi gwrdd ag Idris, y milfeddyg ifanc. Priododd y ddau yn 1953 gan fynd i fyw wedyn i Frynheulog, yn Llanbrynmair. Buont yno tan 1960 pan ddychwelodd Idris yn filfeddyg i Dal-y-bont ac ymgartrefu yn Llysynyr.

Ganwyd Idris yn Llundain 1927 ond pan oedd yn bump oed dychwelodd y teulu i Dal-y-bont ac adeiladwyd Llysynyr. Felly, fel Margaret, cafodd ei addysg yn Ysgol Gynradd Tal-y-bont ac Ysgol Ardwyn. Disgleiriodd fel sgolor gan roi ei fryd ar fod yn filfeddyg. Aeth i'r Royal College of Veterinary Surgeons (RCVS), gan raddio yn y dosbarth cynta. Yn wir, cymaint oedd ei lwyddiant, fe enillodd fedal aur y coleg hwnnw am fod y myfyriwr gorau'r flwyddyn.

Cafodd ei swydd filfeddygol gyntaf yn Llanbrynmair yn 1951. Fel y dywedais eisoes, cyfarfu â Margaret yn y cyfamser a phriodwyd y ddau yng Nghapel Bethesda, Machynlleth yn 1953. Buont fyw yno tan 1960. Yno hefyd y ganwyd Ifor.

Daeth Idris a'r teulu yn ôl i Dal-y-bont gan droi Llysynyr yn bractis milfeddygol. Gwasanaethodd ardal eang yng ngogledd Ceredigion tan 1985 pan gafodd ei ddyrchafu i fod yn arolygwr gyda'r weinyddiaeth yn Aberystwyth. Yno y bu tan iddo ymddeol tua 1995.

Trwy gydol gyrfa Idris, gwraig vet oedd Margaret, a rhoes y cyfan i fod yn gefn iddo yn y gwaith hwnnw. Y cartref a'r gwaith fferm oedd yn gysylltiedig â Llysynyr oedd ei theyrnas. Ni ddymunai fwy. "Ffowls, blodau, a chathod a chŵn" oedd ei phrif ddileit, medd Ifor. Ond nac anghofiwn Margaret y ferch gymwynasgar. Bu'n driw i'w mam ar hyd ei hoes. Yn wir, cafodd ei mam gartref gyda hi am weddill ei bywyd. Rhoes y gofal mwyaf iddi tan i Mrs Roberts farw mewn gwth o oedran yn 96 oed. Wrth esgyn o'r tŷ i ffald Llysynyr gallai Margaret weld ei hen gartref ym Mhen-y-banc. Ei dyhead a'i dymuniad mwyaf fyddai cael ei chladdu yno ryw ddydd. Ac felly gwreiddwyd y dyhead hwn. Y prynhawn hwn caiff ei rhoi i orffwys yn ei hir gartref ar dir ei mebyd. Roedd hi'n gymeriad hyfryd yn hoff o adrodd storïau ac yn berson llawn hiwmor.

Ac am Idris, wn i ddim a ddaethom ar draws person a weithiodd mor galed erioed. Ddydd a nos llafuriodd yn ddi-baid i sicrhau lles anifeiliaid yr ardaloedd hyn. Yn wir, "Jones Tal-y-bont" ydoedd i'r ffermwyr ac fe gwrddais ag aml i un a oedd â'r parch mwyaf tuag ato. Gŵr mwynd diymhongar ydoedd. Roedd yn ddyn deallus iawn ac yn gymwynaswr i'w gymuned. Gwasanaethodd ar gyngor y gymuned am flynyddoedd ac ef oedd milfeddyg sioe Tal-y-bont o 1963 tan 1985.

Cofiaf imi mewn sgwrs ag ef rai blynyddoedd yn ôl ei holi beth yw cyfrinach milfeddyg da. Atebodd mewn fflach: "Ma' pob anifail eisiau byw". Dyna efallai gyfrinach ei lwyddiant fel llawfeddyg milfeddygaeth o'r radd flaenaf.

Diolchwn am y fraint o gael adnabod Idris a Margaret.

Y Parchedig Euros Jones Evans

Ysgol Llangynfelyn

Y Celtiaid

Aeth Dosbarth Miss Jones draw i Ynys-hir i gael diwrnod fel Celtiaid. Yng nghwmni Jenny a Monica bu'r plant yn gwneud amryw o weithgareddau ymarferol yn yr awyr agored i ddysgu am fywyd tylwyrth o Geltiaid. Buont yn adeiladu wal gyda helyg a mwd, yn casglu dail a ffrwythau o'r llwyni i liwio gwlân, yn dysgu enwau coed a phlanhigion brodorol ac yn cynnu tan a choginio bara. Gwisgodd y plant fyny mewn gwisgoedd Celtaidd a paentiwyd eu gwynebau gyda patrymau Celtaidd.

Mochyn cwta newydd

Yn anffodus, bu farw Liwsi, un o foch cwta'r ysgol yn bedair a hanner oed ar ddechrau'r tymor. Ond aeth dosbarth y Cyfnod Sylfaen i Pets at Home i ddewis mochyn cwta bach newydd. Roedd yn anodd iawn dewis un o blith cymaint o foch cwta bach pert ond yn y diwedd dewiswyd ar un fach wen fllwfflyd. Penderfynodd y plant ei galw'n Leila. Bydd Leila'n cadw cwmni i Lola, y mochyn cwta arall, ac maent yn barod yn ffrindiau da.

Pêl-droed yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr iawn i dim pêl-droed 5-bob-ochr yr ysgol sef: Ben, Harvey, Seamus, Asher ac Elijah am ddod yn drydydd allan o chwech o dimau yng nghystadlaeth yr Urdd. Roedd yn dwrnamaint agos iawn gyda'r bechgyn yn ennill tair gêm a cholli dwy.

Pacio bagiau

Aeth criw o rieni, phlant a staff i archfarchnad Morrisons i bacio bagiau cwsmeriaid. Llwyddwyd i godi £160 i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.

Talebau 'Let's Grow' Morrisons

Rydym yn casglu talebau 'Let's Grow' Morrisons. Os ydych am roi eich rhai chi i'r ysgol, byddem yn gwerthfawrogi unrhyw gyfraniadau yn fawr iawn.

Casgliad 'Bags2school'

Bydd ein casgliad nesaf o hen ddillad, esgidiau, bagiau, hetiau, sgarffiau, dillad isaf, beltiau a theganau meddal yn mynd ar fore'r 5ed o Dachwedd. Mae croeso i chi adael eich dillad yn yr ysgol cyn hynny. Byddwn yn derbyn arian gan y cwmni am bob kilogram o eitemau a gasglwn.

Gwasanaeth Diolchgarwch

Byddwn yn cynnal ein Gwasanaeth Diolchgarwch yn yr ysgol am 2.30 ar brynhawn Ddydd Iau, Hydref 23ain. Mae croeso cynnes iawn i bawb ymuno gyda ni.

Cais am wybodaeth

Mae athrawon Ysgol Anfield Road, Lerpwl wedi cysylltu gyda'r ysgol gan eu bod am drefnu ymweliad i blant yr ysgol ag Ysgol Llangynfelyn. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, symudodd plant Ysgol Anfield Road i Ysgol Llangynfelyn a bu'r plant yn byw yn yr ardal dros gyfnod y rhyfel.

Rydym yn gobeithio bydd y plant o Lerpwl yn dod i ymweld â ni ar y 18fed neu'r 19eg o fis Tachwedd. Rydym am ddarganfod a oes yna drigolion o'r ardal a fu yn Ysgol Llangynfelyn yn ystod cyfnod yr Ail Ryfel Byd, tra bu plant Anfield Road yn yr ysgol, dal yn byw yn yr ardal.

Cysylltwch gyda Rhian Nelves yn yr ysgol, os gwelwch yn dda os oes gyda chi unrhyw wybodaeth (01970) 832458/
prif@llangynfelyn.ceredigion.sch.uk

Ysgol Llangynfelyn



Mochyn cwta newydd

Noson Blasu Gwin



Cafwyd noson hyfryd iawn yn Siop Cynfelyn yn ddiweddar pan ddaeth Dylan o gwmni 'Gwin Dylanwad' i ddangos tri gwin newydd. Cafwyd cyfle i flasur gwin coch, gwyn a 'rose' sy'n dod o'r Eidal. Bydd y gwin ar werth yn Siop Cynfelyn.



Elinor Daives, Lily Gwen O'Brien, Heledd Davies, tu ôl, Geraint Howard

Canu, actio a dawnsio

Braf ydi cael adrodd llwyddiant criw bach o blant a phobl ifanc Talbont. Fe fu Geraint Howard, Niamh O'Donnell, Elinor a Heledd Davies a Lily Gwen O'Brien yn brysur iawn yn dysgu canu, actio a dawnsio ar gwrs Theatre Stars yng Nghanolfan y Celfyddydau rhwng 21ain a 25ain o Orffennaf.

Ar y diwrnod olaf perfformiwyd fersiwn Richard Cheshire, Elinor Powell ac Emma O'Brien o'r ffilm Disney 'Frozen' a bu rhai ohonynt yn llwyddianus ar ennill darnau unigol. Geraint oedd y Tywysog Hans, Niamh y Dywysoges Elsa a Heledd y Dywysoges Anna (pan yn ifanc).

Braf hefyd ydi cyhoeddi fod pob un ohonynt wedi cael eu dewis i gymeryd rhan yn sioeau Nadolig Canolfan y Celfyddydau. Bydd Geraint, Niamh a Heledd i'w gweld yn 'The Miracle on 34th Street' a bydd Lily Gwen, Elinor a Heledd yn cymeryd rhan yn y Panto eto eleni.

Pob Lwc i chi i gyd!



Dŵr i Bawb

Mae cefnogi elusen drwy gyfrannu eiddo at siop elusen yn beth cyffredin i'r rhan fwyaf ohonom erbyn hyn a'r stryd fawr yn frith o siopau megis Oxfam, Tenovus ac Achub y Plant. Ond mae Linda Denton wedi bod yn cefnogi elusen 'Dŵr i Bawb' mewn dull reit anghyffredin.

Cychwynnodd Linda gefnogi elusen 'Dŵr i Bawb' rhyw dair blynedd yn ôl, a hynny trwy drefnu debyd uniongyrchol o £15 y mis. Daeth yr elusen at ei sylw wedi iddi fynychu digwyddiad cerddorol 'Sing for Water' yn Llundain fel rhan o gôr Macapela dan ofal Roxanne Smith (Gwarcwm Uchaf gynt). Daeth dros 700 o bobl ynghyd i ganu amrywiaeth o ganeuon a dŵr yn themâu iddynt er mwyn codi ymwybyddiaeth a chodi arian i waith yr elusen. Yn ôl 'Dŵr i Bawb' gall gyfraniad o £15 y mis sicrhau mynediad i ddŵr glân i un person. Dyma'r ffaith y sbardunodd Linda i gefnogi'r elusen.

Mynd a stondin i sêl cist car oedd un o'r pethau ystyriodd Linda ei wneud er mwyn codi arian at yr achos ond teimlai nad oedd ganddi ddigon o stff i lenwi bwrdd, felly daeth y fased elusen i fodolaeth.

Basged gyffredin sy'n cynnwys amrywiaeth o bethau fel llyfrau, tegau, gemwaith a dillad yw'r fased elusen. Mae Linda'n mynd a'r fased gyda hi i glybiau a gweithgareddau wythnosol fel Tai Chi yn neuadd Borth ac i glwb dawnsio yn y Morlan yn Aberystwyth lle mae pobl yn gallu prynu a chyfrannu eitemau i'r fased. Yn ystod misoedd yr haf roedd y fased i'w weld wrth fynedfa gefn ei chartref yn Nhal-y-bont. "Mae nifer o bobl wedi bod yn gefnogol ac yn hael dros ben," meddai Linda, sydd hyd yn hyn wedi codi dros £150 at 'Dŵr i Bawb' gyda'r fased elusen. Gobeithio y bydd y fased i'w weld eto yn ystod misoedd yr haf y flwyddyn nesaf er mwyn i bawb gyfrannu a chefnogi.

Teulu Mrs Frances Mary Gilbertson (1829-1916)

Mae enw Lewis Gilbertson (1814-1896) yn lled-adnabyddus i ardalwyr *Papur Pawb*. Roedd yn fab i William Cobb Gilbertson (1768-1864), Dôl-clettwr a Phlas Cefngwyn, gŵr yn wreiddiol o Middlesex a ddysgodd y Gymraeg. Lewis oedd yn gyfrifol am noddi ac adeiladu ysgoldy, eglwys a ficerdy plwyf Elerch yn ôl dymuniad ewyllysol ei dad. Ganwyd Lewis Gilbertson yn Nôl-clettwr dau gan mlynedd yn ôl yn Nhachwedd 1814, ac fe'i bedyddiwyd yn Eglwys Llangynfelyn ar 3 Rhagfyr 1814. Derbyniodd ei addysg yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen, ac yn dilyn ei ordeinio fel diacon fe'i penodwyd fel offeiriad cyntaf eglwys newydd Llangorwen yn 1841, eglwys a sefydlwyd yn drwm o dan ddylanwad Isaac Williams, (1802-65) Plas Cwmcynfelin a Mudiad uchel-eglwysig Rhydychen. Roedd ei fam, gwraig William Cobb Gilbertson, yn chwae'r i Isaac Williams. Gwasanaethodd Lewis Gilbertson yn Llangorwen am un mlynedd ar ddeg tan 1852, cyn dychwelyd i'w hen goleg yn Rhydychen fel darlithydd ac is-brifathro, swydd a ddaliodd hyd at y flwyddyn 1872, pan dderbyniodd wahoddiad i fynd i Braunston, ger Rugby, fel rheithor y plwyf.


Mae'n bur debyg fod y newid cyfeiriad yn ei yrfa i'w briodoli i ddigwyddiad arall yn yr un flwyddyn, sef ei benderfyniad i briodi, ac yntau erbyn hynny yn ŵr yn tynnu am ei drigain oed. Roedd ei briod Frances (Fanny) Mary Branthwaite yn ferch o Kendal, yn swydd Westmorland, ac yn bedair blynedd ar ddeg yn iau na'i gŵr. Ganed Frances yn 1829, yn ferch i Richard Branthwaite (1782-1867), gwneuthurwr papur a llyfrwerthwr yn y dref. Roedd gan Frances ddau frawd yn ogystal - Edward Branthwaite (g. 1816) a ddaeth yn argraffydd yn Kendal, a John Branthwaite (1823-64), a fu'n fyfyrwr yng Ngholeg y Frenhines, Rhydychen. Ar ôl cyfnod fel offeiriad plwyf fe'i penodwyd yntau yn Feistr Coleg St. Edmund yn 1861. Roedd ef fel Gilbertson wedi dod o dan ddylanwad Mudiad Rhydychen, ond byr fu ei gyfraniad fel prifathro gan iddo foddi'n ddamweiniol tra'n nofio yn Mae Morecambe yn 1864, ac yntau prin yn ddeugain oed. Mae dwy ffenestr liw fendigedig o waith yr enwog Clayton & Bell wedi eu gosod er cof amdano yng nghapel Coleg St. Edmund.

Bu Frances Gilbertson yn gymar ffyddlon i Lewis yn ystod ei gyfnod hir o dros ugain mlynedd fel offeiriad yn Eglwys yr Holl Seintiau, Braunston. Roedd hon yn eglwys arall a ddaeth dan ddylanwad Mudiad Rhydychen a lle gwelir heddiw nifer o enghreifftiau o ddylanwad y pensaer William Butterfield (1814-1900), a fu'n gyfrifol hefyd am gynllunio Eglwys St. Pedr, Elerch. Mae'r defnydd o deilsennau coch reredos y tu cefn i'r allorau a'r bedyddfeini marmor hardd yn arwyddion clir o hynny yn y ddwy eglwys.

Wrth i Lewis Gilbertson fynd yn fwy bregus ei ieuchyd penderfynodd yn 1893, ac yntau'n 78 oed i ymddeol i Aberystwyth. Daeth chwae'r hyn ei briod, Anne Branthwaite, i fyw gyda nhw yn eu cartref newydd yn 46, Rhodfa'r Môr, tŷ sydd bellach yn rhan o Westy'r *Marine*. Ymhen tair blynedd yn dilyn ei ymddeoliad bu farw Lewis Gilbertson, a'i gladdu yn Eglwys Elerch ar 7 Ebrill 1896. Cafodd Frances gwmni ei chwae'r hyd farwolaeth Anne yn Rhagfyr 1902, a chludwyd ei chorff yn ôl ar y trên i Kendal i'w gladdu yn dilyn gwasanaeth byr yn Eglwys St. Mihangel, Aberystwyth. Bu Frances fyw am flynyddoedd lawer ar ôl colli ei gŵr a'i chwae'r. Bu farw ar 23 Gorffennaf 1916, ac fe'i claddwyd yn Eglwys Elerch ar 26 Gorffennaf a hithau'n 87 oed. Ni chafodd hi a'i gŵr deulu. Mae ffenestr lliw er cof am Lewis Gilbertson yng nghapel Coleg yr Iesu, Rhydychen.

Mae'r llythrennu ar fedd Lewis a Frances Gilbertson newydd gael ei adfer gyda chymorth ariannol gan Goleg yr Iesu. Mae'r garreg i'w gweld y tu cefn i ffenestr ddwyreiniol Eglwys Elerch.


Richard E. Huws



Lewis Gilbertson



John Branthwaite



Frances Gilbertson



Merched Tal-y-bont yn dangos y dynion sut i siapo lawr ar y fferm. A oes rhywun yn nabod rhai ohonynt?

Y Rhyfel Byd Cyntaf – Cofio a Myfyrio

Tan yn ddiweddar, y gred gyffredinol am y Rhyfel Byd Cyntaf oedd ei fod yn bedair blynedd o frwydro hir, ar gyfandir Ewrop yn bennaf. Wedi chwe mis a mwy o raglenni teledu, rydym yn dechrau sylweddoli fod ei effaith a'i ganlyniadau yn llawer mwy eang.

Ond... mae Gogledd Ceredigion yn ardal ddiaffordd. Go brin fod y rhyfel wedi cael llawer o effaith uniongyrchol ar fywyd bob dydd ein broydd?

Mae'n debyg bod llawer o ddarlennwyr *Papur Pawb* wedi mynychu un o'r diwrnodau cywain a gynhaliwyd gan eglwysi rhyddion yr ardal ym mis Gorffennaf i gasglu deunydd ac atgofion am y rhyfel. Daeth peth wmbreth o ddogfennau, llythyrau, lluniau a chreiriau i'r golwg, ac mae'n saff i ddweud erbyn hyn fod y rhyfel wedi cyffwrdd mewn rhyw ffordd neu gilydd ar bob un unigolyn yn ddi-eithriad.

Cymerwch y llun o ferched Tal-y-bont a aeth i weithio ar y ffermydd lleol (am fod prinder dynion). Cyn y rhyfel, dywedodd y farn feddygol nad oedd merched yn ddigon cryf i wneud gwaith corfforol. Ond dyma'r rhai ar y dde yn barod i lifo coed â llif dwy-law. Ac am y ddwy ar y gert – mewn trwsus! Pum mlynedd yng nghynt y byddai hynny'n cymaint o warth byddai ceidwaid moesau lleol wedi eu hel o'r pentref am fentro wisgo yn y fath ffordd.

Cawsom ein syfrdanu gan gymaint o ddeunydd a ddaeth i law – mae pethau'n gweld golau dydd am y tro cyntaf ers canrif a mwy. Ar ddechrau mis Tachwedd, bydd cyfle i bawb weld y trysorau hyn mewn gyfres o arddangosfeydd, yn dechrau gyda'r agoriad swyddogol yn Neuadd Rhydyppennau ar Dachwedd 3 am 7.00, ac yno yn teithio trwy'r ardal fel y dangosir yn yr hysbyseb yn y rhifyn hwn (bydd yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ar 10-11 Tachwedd).

Yn deillio o hyn, bydd Euros Lewis yn dehongli sut y chwalwyd bywydau a gobeithion pedwar cymeriad lleol mewn cyflwyniad dramatig mewn dwy ran (eto, mae'r dyddiadau a'r lleoliadau yn yr hysbyseb).

Paidiwdh â meddwl nad yw hanes y rhyfel yn berthnasol i chi. Roedd yn ddaeargryn. Ysgwydodd y gymdeithas i'w seiliau, a'i newid am byth. Cofiwch y dyddiadau. Edrychwn ymlaen i'ch gweld yno.

Y RHYFEL BYD CYNTAF YN ARDAL GOGLEDD CEREDIGION PROSIECT COFIO a MYFYRIO

Arddangosfa o ddeunyddiau a gasglwyd yn lleol

**Agoriad Swyddogol – Neuadd Rhydyppennau,
Nos Lun. 3 Tachwedd am 7 o'r gloch**

4 – 5 Tachwedd • Neuadd Rhydyppennau

10 – 11 Tachwedd • Neuadd Goffa Tal-y-bont

13 – 14 Tachwedd • Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor

17 – 19 Tachwedd • Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch

21 – 22 Tachwedd • Neuadd y Paith, Capel Seion

Bydd yr arddangosfa ar agor 2 – 8 p.m.

Ac eithrio 14 a 22 Tachwedd, pan fydd yn cau am 5 p.m.

Cyflwyniad dramatig dan ofal Euros Lewis gydag actorion lleol

Act 1: nos Iau 6 Tachwedd • Capel y Garn, Bow Street
Act 2: nos Fercher 12 Tachwedd • Capel Bethel, Tal-y-bont

Act 1: nos Wener 14 Tachwedd • Capel Pen-llwyn, Capel Bangor
Act 2: nos Iau 20 Tachwedd • Capel Horeb Penrhyn-coch
Bydd y perfformiadau'n dechrau am 7.30 p.m.

Croeso cynnes i bawb – Manylion pellach gan John Leeding 01970 832672

Cofnodion Llyfr Log Ysgol Elerch

Yn dilyn yr erthygl ym *Mhapur Pawb* fis diwethaf i weld a oedd cyfeiriad at y Rhyfel Byd Cyntaf yn llyfrau log y dair ysgol leol, euthum innau ati i edrych yn llyfr log Ysgol Elerch, Bontgoch.

Nid oedd unrhyw gyfeiriad penodol at y Rhyfel, ond ym mis Mawrth 1916 ymwelodd Miss Clifford Brown, Tal-y-bont, â'r ysgol i apelio ar y plant i gasglu wyau i'r rhai a glwyfwyd, ac i fod yn gyfrifol am anfon pedwar dwsin o wyau bob pythefnos. Ddechrau Ebrill adroddir fod y gyfran gyntaf o wyau wedi eu hanfon. Ym mis Ionawr 1917 aeth Mrs Jones, Y Ficerdy, i'r ysgol i gyflwyno *Certificate of Egg Collection*.

Roedd Diwrnod Trafalgar yn cael ei ddathlu yn yr ysgol ar 21 Hydref bob blwyddyn, a dyma drefn y diwrnod yn 1916: *A lesson was given on (i) Nelson and how he won the battle of Trafalgar; (ii) Our Navy. The children recited Rule Britannia and Heart of Oak. The boys and girls in the upper classes had to write an essay on the Battle of Trafalgar. The National Anthems were sung.* Ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf daeth dathlu Diwrnod Trafalgar i ben gan fod erchyllterau'r Rhyfel wedi newid meddyliau pobl ynglŷn â rhyfel, ac nad peth i'w ddathlu ydoedd. Teimlwyd wedi hynny fod diwrnod y Cofio ar 11 Tachwedd yn fwy addas.

Ymwelodd Mr Thomas, Arolygydd ei Mawrhydi, â Bontgoch hefyd i sôn am y *War Savings*, gyda nifer o drigolion y pentref yn bresennol yn y cyfarfod.

Ym mis Rhagfyr 1916 roedd y Prifathro, Dennis E. Hughes, yn absennol o'r ysgol gan iddo fynd o flaen y *Recruiting Medical Board*. Fis yn ddiweddarach aeth o flaen y Bwrdd eto i gael prawf arall, ond mae'n debyg nad ymunodd â'r Fyddin gan iddo fod yn Brifathro ar yr ysgol hyd Chwefror 1924.

Fel yn yr ysgolion eraill, caewyd yr ysgol ar 10 Gorffennaf 1918 er mwyn i'r plant â'r athrawon fynd i Aberystwyth i weld y tanc yn gorymdeithio drwy'r dref. Ac eto ar 18 Gorffennaf 1919 cafwyd hanner diwrnod o wyliau i Ddathlu Heddwch, ar ôl trafod y Rhyfel a'r digwyddiadau a arweiniodd at heddwch, yn y bore. Y diwrnod canlynol trefnwyd te i'r plant gan reolwyr yr ysgol. Roedd Ysgol Elerch hefyd ar gau am wythnos o wyliau ym mis Hydref 1919 i goffáu heddwch.

Felly, prin iawn oedd y cyfeiriadau at y Rhyfel yn llyfr log Ysgol Elerch, er fod bechgyn ifainc â chysylltiad â'r pentref wedi bod yn brwydro ynddi ac un wedi ei ladd yn Ffrainc yn 1918.

Carys Briddon

Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn

Nôs Fawrth 30ain o Fedi oedd cyfarfod cyntaf y tymor pan ddaeth Mike Freeman i sôn am Hanes Merched drwy'r oesau. Yn ôl y gred gyffredinol, roedd merched yn gaeth i'w cartrefi, ac felly yn absennol i raddau helaeth o dudalenau hanes, ond dangosodd Mike yn ei sgwrs ddiddorol a dadlennol fod hyn yn bell o fod yn hollol gywir. Roedd llawer iawn o ferched yn cyfrannu at yr incwm teulu drwy gasglu cocos, hel cerrig neu risgl (i wneud lledr)ayb.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 28ain o Hydref ac edrychwn ymlaen i glywed Nigel Callaghan yn sôn am Ceredigion ym mhapurau newydd y 19eg ganrif.

Y Gair Olaf



Be sydd yn fy mhoeni i yn ardal Tre'r ddôl? : dau beth sydd yn dod i'r meddwl.

Ar yr ochor ysgafn, mae pwyllgor "Siop Cynfelyn" yn ysgrifennu "Cwmni Cymunedol Cletwr" gydag un "t". Fel "Cocyltonian" go iawn (rhywun sydd wedi ei eni a'i fagu yn y filltir sgwâr yma) mae 'na wastad wedi bod dwy "t" yn lleol sef afon Clettwr, Clettwr Hall, Maesclettwr a Dolclettwr. Ewch yn ôl i Fapiâu'r Degwm ac mi welwch chi hyn. Pam ddyle pobol ddwâd newid traddodiad cefn gwlad?

Yn ail, ac yn llawer mwy difrifol, pan ddaw'r glaw - ac mi ddaw ar ôl y sychder eleni, - ni fydd Pont y Llanerch dros yr afon Clettwr yn gallu ymdopi â'r llif ac fe fydd llanast mawr yno. Ar hyn o bryd, dim ond dwy droedfedd o ddyfnder sydd i'r dŵr lifo (cyn y llif diwethaf gallech gerdded o dan y bont). Felly pan ddaw'r llif, Duw a wyr beth neith ddigwydd.

Pe byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwario tamed o arian i lanhau'r cerrig o dan y bont rŵan, fe fydden nhw â'r Cyngor Sir yn safio'n aruthrol ar be allai gostio i adnewyddu'r bont yn y dyfodol.

Fel wede Dic y Lein "dim pwynt codi pais ar ôl piso!".

Rowland Dolclettwr

	Teiars Aliniad Olwyn Ecsôsts Batris Brêcs Hongiad Bar tynnu Gwasanaeth MOT	
Glanyrafon	HUWLEWISTYRES.COM	Rhodfa'r Parc
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor. Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan ALIGNMYCAR.CO.UK Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan. ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000 LLANBED 01570 422221		

Garej Paul Joseph

01970 822220

Pob Math o Geir
Gwasanaeth a Thrwsio
Diagnosteg a Weldio
Paratoi a Thrwsio MOT



Dan Glo, Lon Glanfred, Llandre

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim

James Memorials
 Vicarage Crossing,
 Llandre, Bow Street
 Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones



Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
 Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

CHWARAEON



Newyddion Criced

Bu'n dymor gwahanol i'r cyffredin i Glwb Criced Tal-y-bont eleni. Wedi trafodaethau dros y gaeaf, penderfynodd y Clwb i gynnal dau dîm, ar y cyd gyda Chlwb Criced Llaethdy Rachael's. Y syniad oedd y byddai cnewyllyn y ddau dîm yn parhau, ond y gellid benthg rhai chwaraewyr rhwng y ddau dîm yn ôl yr angen.

Dyna felly'r rheswm pam fod enw Tal-y-bont yn ymddangos ddwywaith yn nhabl Cynghrair y Gorllewin eleni. Gwaetha'r modd, fel nododd un o gomediwyr y clwb, roedd y gynghrair derfynol bron iawn yn nhrefn y wyddor, gyda'r ddau dîm yn cystadlu gyda Tregaron a Thywyn tua'r gwaelodion.

Anghyson, braidd, fu'r perfformiadau, yn rhannol oherwydd colli rhai o'r prif fatwyr i ofynion tadolaeth! Ond rhoddodd hyn gyfle i erail; da oedd gweld y cyn-gapten Huw Chambers ymhlith y rhediadau, yn ogystal a Robbie Taylor, Huw Davies a Ben Harper, ac hefyd felly cadeirydd y clwb, Matthew Willis, gyda'r gŵr o Daliesin yn mwynhau ei dymor gorau erioed gyda'i dechneg anghonfensiynol.

Nick Cooke oedd bowliwr mwyaf cyson tim y Pentrefwyr, gyda Philip Abraham a Sojan Varghese yn serenennu i dîm Rachael's.

Y gobaith yw i barhau gyda'r trefniant yn ystod tymor 2015, ac hefyd denu mwy o chwaraewyr ifanc i'r clwb. Dylai unrhywun sydd a diddordeb gysylltu a Matthew ar 832 822.

Owen Roberts

Steve ar y brig

Llongyfarchiadau i Steve Evans, Elgar, Tal-y-bont, ar ennill dwy gystadleuaeth a gynhaliwyd ar gwrs golff Borth ac Ynyslas yn ystod yr haf. Dyma Steve yn derbyn Tlysau KBI a'r Ffiwsilwyr oddi wrth capten y clwb Harry James. Mae Steve hefyd wedi'i enwebu yn is-gapten y clwb ar gyfer y tymor nesaf.



Ysgol Llangynfelyn – Pêl-droed yr Urdd – tud 8



Tal-y-bont Teirw dan 8



Tîm pêl-droed Tal-y-bont Teirw dan 8 yn eu cit newydd a noddwyd gan Prifysgol Cymru, Y Gyfraith a Throsedddeg. Roedd hi'n ddechrau da i'r tymor ac cafwyd hwyl yn nhwrnament Gary Pugh. Mae'r tîm wedi colli 2 ac ennill 1 gêm ar ddechrau tymor 12

newydd yng Nghynghrair Ieuencid Aberystwyth. Croeso i Paul Kelly, Tal-y-bont a Gareth Norris, Tal-y-bont sydd wedi ymuno a Chlwb Pêl-droed Ieuencid Tal-y-bont fel rheolwyr, pob lwc i'r tîm yn ystod y tymor.